No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, Mrs. M.R. Wilkinson and E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A.C. Parker a L.O. Rowlands

### C652 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

### C653 DATGANIADAU BUDDIANT –

| Enw’r Cynghorydd | Natur y Buddiant |
|---|---|
| Y Cynghorydd B.T. Gray | Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem 12 ar yr Agenda - Ad-drefnu Darpariaeth Feithrin ym Mhenarth. Mae'n Llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd Evenlode ac roedd ganddo ganiatâd i aros a phleidleisio yn y cyfarfod. |
| Y Cynghorydd K.F. McCaffer | Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem 12 ar yr Agenda - Ad-drefnu Darpariaeth Feithrin ym Mhenarth. Mae'n Llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd Evenlode ac roedd ganddi ganiatâd i aros a phleidleisio yn y cyfarfod. |

### C654 DIWEDDARIAD CHWARTER 4 Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynwyd y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Gorffennaf, 2021 i'r Cabinet fel y'i cynhwysir yn yr agenda ac fe'i hystyriwyd ochr yn ochr ag Eitem Rhif 7 ar yr Agenda.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried y sylwadau

PENDERFYNWYD – YSTYRIED sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cyd ag Eitem Rhif 7 ar yr Agenda.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael eu hystyried ynghyd â'r adroddiad am yr un mater.

**C655 ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2020/21 (CYF) -**

Cyflwynwyd y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Gorffennaf, 2021 i'r Cabinet fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y system gofnodi newydd a oedd yn gyfle i adolygu'r ffordd mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a byddai hefyd yn asesu achosion cwynion yn y dyfodol. Dywedodd y Cynghorydd McCaffer y byddai'r system newydd yn gwella sut roedd gwybodaeth yn cael ei hanodi a'i chadw.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried y sylwadau

PENDERFYNWYD – DIOLCH i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y sylwadau a nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C656 CYDBWYLLGOR GWGASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR -**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, 2021 fel y'u cynhwysir yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd fod timau Cydymffurfio a Gorfodi Covid wedi bod yn gweithio gyda Thimau Gorfodi ar y Cyd yr Heddlu yn ogystal â chyflawni eu rolau ymchwilio a rheoleiddio arferol.

PENDERFYNWYD – DIOLCH i Gydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir am y sylwadau a nodi cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a gynhaliwyd ar 22 Mehefin, 2021.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi’r cofnodion

**C657 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL CHWARTER 4 (AG/BA) (CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL)**

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 4 (Ebrill 2020-Mawrth 2021) ac fe'i hystyriwyd ar y cyd â'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Gorffennaf, 2021. Ymgorfforwyd dadansoddiad risg yn yr Adroddiad Cryno am Risg Corfforaethol (Atodiad A). Roedd hyn yn galluogi swyddogion ac Aelodau i nodi ac asesu tueddiadau a natur drawsbynciol risg gyda'r gallu i archwilio manylion risgiau yn ôl yr angen.

Wrth gyfeirio at oblygiadau COVID-19, gofynnodd yr Arweinydd i drigolion Bro Morgannwg nad oeddent wedi cael brechiad eto i wneud hynny i ddiogelu eu hunain ac eraill.

Dywedodd hefyd fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yn ystod y pandemig, wedi cwrdd yn rheolaidd i ddelio â materion penodol i COVID. Byddai'r cyfarfodydd hynny'n parhau ac yn asesu ac yn rheoli'r holl Risgiau Corfforaethol cysylltiedig o fewn y Gofrestr Risg ar draws yr holl Wasanaethau.

Soniodd yr Arweinydd am y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Gorffennaf, 2021 a gyflwynwyd i'r Cabinet fel y'i cynhwysir ar yr agenda fel Eitem 4.

Cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu ynglŷn â'r orsaf trosglwyddo gwastraff newydd. Gofynnodd yr Arweinydd i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei darparu i'r holl Aelodau, pan fydd ar gael.

Dywedodd hefyd, mewn perthynas â'r drafodaeth ynghylch recriwtio a chadw staff a chynllunio'r gweithlu, fod gwaith yn cael ei wneud gan y Tîm Rheoli yn ogystal ag Archwilio Cymru i gynnwys agweddau megis gweithio ystwyth ac asesu polisïau cyfredol yn sgil COVID-19.

O ran y drafodaeth ynghylch llifogydd, dywedodd yr Arweinydd fod adroddiad Adran 19 i fod i gael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI sefyllfa Chwarter 4 o ran risgiau corfforaethol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2021 fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad ac yn y cyfeiriad a gafwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(2) CYMERADWYO y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 4 a'r Adroddiad Cryno Risg Corfforaethol cysylltiedig.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad, y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o'r risgiau corfforaethol a galluogi'r Cabinet i archwilio materion a chamau gweithredu allweddol sy'n dod i'r amlwg fel yr amlinellir yn Atodiad A.

**C658 ADRODDIAD BLYNYDDOL BRO MORGANNWG (CYNLLUN GWELLA RHAN II) 2020/21 (AG/BA) – CRAFFU – I GYD) -**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) 2020/21, sy’n amlinellu cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei Amcanion Lles (Gwella) y cytunwyd arnynt ym mis Ebrill 2020. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys datganiad sefyllfa diwedd blwyddyn am risgiau corfforaethol y Cyngor, adolygiad blynyddol o gynnydd yn erbyn ei gynigion rheoleiddio a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Gan mai hwn oedd yr adolygiad blynyddol diwethaf o berfformiad o dan y Mesur Llywodraeth Leol, roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau perfformiad yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd ac yn cynnig amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi hunanasesiad y Cyngor yn 2022 o dan y Ddeddf newydd. Byddai adroddiad hunanasesu'r Cyngor yn 2022 yn disodli'r adolygiad blynyddol presennol o berfformiad (Atodiad A i'r adroddiad).

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth a’r Cyngor Llawn benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) DERBYN fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) 2020/21 (Atodiad A i'r adroddiad) a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 20 Medi, 2021 i'w gymeradwyo.

(2) DERBYN yr amserlen arfaethedig ar gyfer llunio a chyhoeddi hunanasesiad cyntaf y Cyngor dan y darpariaethau perfformiad newydd a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (paragraff 2.22-2.38 yr adroddiad) a’i chyfeirio at y Cyngor Llawn ar 20 Medi i’w chymeradwyo.

(3) yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet ac Aelodau'r Cyngor Llawn, y dylid cyfeirio'r amserlen arfaethedig ar gyfer llunio hunanasesiad 2022 y Cyngor (paragraff 2.22 - 2.38 o'r adroddiad) ac Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) 2020/21 (Atodiad A i'r adroddiad) at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i oruchwylio’n derfynol adolygiad perfformiad y Cyngor ar gyfer 2020/21, gan gynnwys cynnydd yn erbyn ei argymhellion/cynigion rheoleiddio ar gyfer gwella (adran 7 yr Adroddiad Blynyddol atodedig – Atodiad A).

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llawn dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)

2009 i gyhoeddi adolygiad blynyddol o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Amcanion Lles (Gwella) erbyn 31 Hydref yn unol â'r amserlen statudol.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad hunanasesu blynyddol sy’n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(3) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn goruchwylio cynnydd y Cyngor yn derfynol o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyfrannu at ei Amcanion Llesi ac yn mynd i'r afael ag argymhellion/cynigion rheoleiddio ar gyfer gwella; a'r amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi hunanasesiad y Cyngor yn 2022.

**C659 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y RHEOLWR GYFARWYDDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i’r Cabinet am y ffordd y mae’r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi arfer Pwerau Brys ers yr adroddiad diwethaf ar 5 Gorffennaf 2021.

Dywedodd yr Arweinydd fod llawer o'r penderfyniadau a wnaed yn gysylltiedig â'r Rhaglen Gyfalaf er mwyn parhau i weithio dros gyfnod y toriad.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd y cytundeb ar gyfer gwariant cyfalaf yn aml ar waith tan ganol mis Mawrth, cyn cynnal unrhyw ymarfer tendro a gallu dechrau gwaith erbyn yr haf. Roedd yr adroddiad yn rhestru gwaith i ysgolion y bu'n rhaid ei wneud yn ystod gwyliau'r haf tra nad oedd plant yn yr ysgol. Roedd y gwariant eisoes wedi'i gytuno ond bu'n rhaid ei awdurdodi trwy Bwerau Brys i ymgymryd â nhw.

Dywedodd y Cynghorydd McCaffer ei bod yn gadarnhaol gweld swm y buddsoddiad a fu mewn darpariaeth hamdden ar draws Bro Morgannwg dros gyfnod yr haf, e.e., yng Nghanolfan Hamdden y Barri.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynllun i gadw gyrwyr LGV y bu'n rhaid ei roi ar waith yn gyflym er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.

Roedd hyn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Brys y Rheolwr Gyfarwyddwr fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C660 ADOLYGIAD O STRWYTHUR TÎM ARWEINYDDIAETH YR UWCH WEITHREDWYR (AG/BA) (CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

*Cymerwyd yr eitem hon ar ddiwedd y cyfarfod. Gofynnwyd i swyddogion adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.*

Roedd yr adroddiad yn nodi canfyddiadau'r dadansoddiad diweddar o strwythur uwch reolwyr y Cyngor, mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet ar 12 Mai, 2021 i gomisiynu adolygiad ymgynghori allanol o'r strwythur.

Roedd yr adroddiad yn cynnig y strwythur sefydliadol lefel uchel y byddai ei angen i gyflawni'r agenda uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2020-25 ac yn nodi'r dull bras ar gyfer sut y byddai'r sefydliad yn gweithio yn y dyfodol.

Yn benodol, roedd yr adroddiad yn cynnig y newidiadau strwythurol uniongyrchol sydd eu hangen i:

- Gynyddu niferoedd a gallu staff lefel hŷn er mwyn sbarduno'r newidiadau trawsnewidiol i'r gwasanaethau a ddarperir sy'n ofynnol yn y Cynllun Corfforaethol;
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth weithredol briodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r agenda genedlaethol a rhanbarthol sy'n datblygu; a
- Datblygu cyfeiriad arweinyddiaeth a fyddai'n sail i strwythur sefydliad ar gyfer 2022/23 a'r tu hwnt ac a fyddai'n ymgorffori'r lefelau staffio a'r gallu sydd eu hangen i weithredu'r model gweithredu newydd yn llawn a darparu gwasanaethau fel y rhagwelir yn y Cynllun Corfforaethol.

Gofynnodd yr Arweinydd am ddiwygio teitl yr adroddiad o 'Uwch Dîm Arweinyddiaeth Weithredol' i 'Tîm Arweinyddiaeth Strategol', yn ogystal ag yng nghorff yr adroddiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch gyda Chorff Gweithredol y Cabinet, a chytunwyd ar hyn.

Paratowyd yr adroddiad gan Steve James, ymgynghorydd Adnoddau Dynol allanol o Solace, a fyddai'n cyflwyno'r adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a chyfarfod y Cyngor Llawn.

Roedd gan yr adroddiad rai goblygiadau cyllidebol, ond byddai angen newidiadau er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod i'r safonau gorau i barhau i fod yr Awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Roedd COVID-19 hefyd wedi cael effaith ar bawb yn y gymdeithas, gan gynnwys Swyddogion Awdurdod a oedd wedi gweithio'r tu hwnt i'r disgwyliadau arferol yn ystod y pandemig er mwyn cynnal gwasanaethau.

Roedd yr adroddiad yn ceisio sefydlu hierarchaeth fwy cyson ar lefel arweinyddiaeth. Byddai cyfweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer swyddi Cyfarwyddwr

Adnoddau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Lleoedd, ond nid i'r Prif Weithredwr gan mai'r swydd honno oedd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig o hyd.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn edrych ymlaen at y trafodaethau a fyddai'n digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a chyfarfod y Cyngor Llawn. Cyfeiriodd at y Materion Allweddol i'w Hystyried yn yr adroddiad a drafododd sut yr oedd y Cyngor yn gynhyrchiol, yn effeithiol, yn effeithlon, ac yn cael ei redeg a'i arwain yn dda, ond hefyd sut yr oedd cyni wedi cael effaith ddofn ers 2010. Roedd y Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi gweithio gyda'i gilydd ac yn rhagweithiol trwy gydol y pandemig, ond cydnabuwyd bod y Cyngor hwn yn uchelgeisiol dros Fro Morgannwg fel y dangosir yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd angen rheoli ymrwymiadau fel yr agendâu Argyfwng Hinsawdd a Natur, yn ogystal â bod yn rhan o bennu'r agenda ranbarthol, er mwyn sefydlu'r strwythurau arweinyddiaeth cywir.

Dywedodd y Cynghorydd Gray fod Gweinyddiaeth y Glymblaid yn gefnogol i'r cynigion ac yn edrych ymlaen at Graffu, gan archwilio manylion yr adroddiad yn llawn cyn y ddadl gyfan yn y Cyngor Llawn. Roedd Arweinwyr Grŵp eisoes wedi cael eu briffio'n uniongyrchol a chafwyd deialog adeiladol hyd yma.

Roedd y Cynghorydd Wilkinson yn gefnogol i'r adroddiad a dywedodd fod yn rhaid cefnogi staff yn effeithiol ar ôl pwysau'r deunaw mis diwethaf a diolchodd i'r holl staff am eu gwaith yn ystod y pandemig. Roedd angen rhoi'r strwythurau cywir ar waith er mwyn gallu symud ymlaen ac i'r Cyngor barhau i wella.

Roedd y Cynghorydd King yn edrych ymlaen hefyd at y ddadl drwyadl a fyddai'n digwydd yn y Pwyllgor Craffu. Roedd rhaid i'r Awdurdod allu symud ymlaen i gynnal perfformiad ac roedd perygl o fod yn hunanfodlon fel Awdurdod arweiniol lle nad oedd unrhyw gamau'n cael eu cymryd i gryfhau'r strwythur arweinyddiaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor Llawn benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO y bwriad i ad-drefnu'r strwythur haen gyntaf ac ail haen, gan gynnwys rolau newydd a'r rhai sydd wedi newid, fel y nodir yn yr adroddiad, a'i argymell i gyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhelir ddydd Mawrth, 28 Medi, 2021.

(2) CYMERADWYO dileu a chreu'r swyddi canlynol yn unol â'r manylion a geir yn yr adroddiad ac fel rhan o'r strwythur arfaethedig ac argymell y cynigion hyn i'r Cyngor Llawn:

(a) Dileu swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr;
(b) Creu swydd Prif Weithredwr;
(c) Creu swydd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol; a
(d) Chreu swydd Cyfarwyddwr Lle.

(3) NODI'r broses ymgynghori a'r amserlen weithredu arfaethedig.

(4) CYFEIRIO’r adroddiad a chynigion y Cabinet at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried a bod unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Craffu yn cael eu hystyried mewn cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhelir ddydd Mawrth, 28 Medi 2021, ynghyd ag argymhellion a chynigion y cyfarfod Cabinet hwn.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cabinet a'r Cyngor i ystyried canfyddiadau'r adolygiad a'r achos busnes sylfaenol ar gyfer y newidiadau strwythurol a argymhellir yn llawn.

(2) Rhoi'r dadansoddiad i'r Cabinet a'r Cyngor i gytuno ar gynigion ffurfiol ar gyfer newid sefydliadol i'w hargymell i'r Cyngor er mwyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

(3) Galluogi'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i ddechrau paratoi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol â staff ar y newidiadau arfaethedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

(4) Galluogi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i ystyried yr adroddiad er mwyn caniatáu i unrhyw sylwadau a wneir yn y Pwyllgor hwnnw gael eu hadrodd i gyfarfod arbennig o'r Cyngor, ynghyd â'r adroddiad gan y Cabinet gan fod yr argymhellion yn gofyn am benderfyniad gan y Cyngor.

**C661 AILENWI YSGOL GYNRADD LLANCARFAN (DA/AA) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Roedd y Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Roedd yn rhaglen fuddsoddi cyfalaf strategol hirdymor bwysig gyda’r nod o greu cenhedlaeth o Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghymru. Roedd adeilad ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd yn y Rhws wedi'i gynnwys fel rhan o Raglen Band B y Cyngor.

Ar 18 Mawrth 2019, penderfynodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ad-drefnu’r ddarpariaeth addysg gynradd yng Ngorllewin y Fro trwy drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i safle ysgol newydd yn y Rhws ar dir sydd tua’r gogledd-orllewin o'r rheilffordd, yn ogystal ag estyn yr ystod oedran a chynyddu lle yn yr ysgol (cofnod C627). Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y byddai’r cynnig yn:

- Galluogi’r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y disgyblion;
- Galluogi’r canlyniadau addysgol a’r safonau yn yr ardal i wella eto fyth;
- Cynnal mynediad a dewis rhieni ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal;
- Rheoli’r cyflenwad a’r galw am leoedd ysgol yn yr ardal.

Roedd adeilad newydd yr ysgol yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac roedd i fod i gael ei gwblhau ar gyfer mis Ionawr 2022.  Byddai'r holl staff a disgyblion yn trosglwyddo i'r adeilad newydd ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Roedd pennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan wedi ysgrifennu at y Cyngor i ofyn am newid enw'r ysgol i adlewyrchu'r lleoliad newydd a'r dalgylch estynedig.  Cefnogwyd ailenwi'r ysgol hefyd gan Gyngor Cymuned Llancarfan.

Ar ôl ymgysylltu â staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a disgyblion, roedd Ysgol Gynradd South Point/Ysgol Gynradd Trwyn y De wedi'i nodi fel yr enw a ffefrir.

Gellid newid enw'r ysgol trwy ddiwygio'r Offeryn Llywodraethu. (Atodiad B i'r adroddiad.)

Byddai'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn parhau i weithio gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion i ddatblygu logo newydd a fyddai'n adlewyrchu treftadaeth yr ysgol wrth nodi dechreuadau newydd hefyd.

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi ymweld â'r safle dros y toriad gan ddweud bod gwaith ar adeilad newydd yr ysgol yn mynd rhagddo'n gyflym i greu ysgol ddi-garbon gyntaf Cymru.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Y dylai'r Offeryn Llywodraethu newid enw Ysgol Gynradd Llancarfan i Ysgol Gynradd South Point/Ysgol Gynradd Trwyn y De o fis Ionawr 2022 ymlaen.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Sicrhau bod ailenwi'r ysgol yn cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol perthnasol.

**C662 AILGYFLUNIO DARPARIAETH MEITHRIN YM MHENARTH (DA/AA)** (**CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT**) -

Roedd y Cynghorwyr Gray a McCaffer wedi datgan diddordeb yn yr eitem ar ddechrau'r cyfarfod ond roedd ganddynt ganiatâd fel Llywodraethwyr yr AALl i aros a phleidleisio yn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar gynnig i ad-drefnu darpariaeth feithrin ym Mhenarth trwy:

- gyfuno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode; a
- chyfuno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan.

Byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei darparu o fewn yr adeiladau presennol gan newid y trefniadau rheoli cyffredinol.

Dros y 10 mlynedd diwethaf roedd y Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel ysgol gynradd ar gyfer addysg 3 i 11 mlynedd. Roedd hyn wedi cynnwys uno ysgolion babanod ac iau, megis yn Ysgol Gynradd Dinas Powys ac Ysgol Gynradd San Helen, yn ogystal â chyfuniad o ddarpariaeth feithrin a chynradd ar wahân, megis yn Ysgol Gynradd Tregatwg.

Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan oedd yr unig ddwy ysgol feithrin annibynnol yn y Fro (h.y. endidau ar wahân gyda'u cyrff llywodraethu eu hunain a chyllideb ddirprwyedig).

Ar yr un pryd, Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Gynradd Cogan oedd yr unig ddwy ysgol gynradd arall yn y Fro nad oeddent yn cynnig darpariaeth feithrin neu nad oedd ganddynt gynlluniau cymeradwy i gynnig hon.

Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Bute Cottage yn wag ar ddiwedd mis Awst 2019 ac roedd yn cael ei chyflenwi ar y pryd trwy drefniant dros dro. Daeth swydd y pennaeth yn Ysgol Feithrin Cogan yn wag ddiwedd Awst 2021 a byddai'n cael ei chynnwys am flwyddyn trwy drefniant dros dro gydag Ysgol Gynradd AGC Saint Andras. Roedd hyn yn gyfle i'r Cyngor ad-drefnu darpariaeth feithrin mewn ffordd a oedd o fudd i ddisgyblion a staff wrth osgoi diswyddiadau gorfodol ar yr un pryd.

Cynigiwyd uno Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Bute Cottage. Byddai hyn yn arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Evenlode (ar safle presennol Ysgol Feithrin Bute Cottage). Cynigiwyd hefyd i Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Feithrin Cogan gael eu huno, gan arwain at ddarparu 96 o leoedd meithrin rhan-amser yn Ysgol Gynradd Cogan (ar safle presennol Ysgol Feithrin Cogan).

Beth oedd prif fanteision y cynigion?

- Pontio mwy hwylus i ddisgyblion o addysg feithrin i addysg gynradd;
- Cyfathrebu symlach rhwng rhieni/gofalwyr a staff gydag un pwynt cyswllt trwy gydol pob cyfnod o addysg gynradd;
- Un gyfundrefn lywodraethu ac atebolrwydd gydag un pennaeth a chorff llywodraethu sy'n gyfrifol am bob cyfnod addysg ym mhob ysgol gynradd.
- Modd cael mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol trwy fod yn rhan o ysgol gynradd sy'n addysgu ar draws pob cyfnod o addysg gynradd;
- Un set o bolisïau ar draws pob grŵp blwyddyn, gan ymgorffori meysydd arfer gorau o'r ysgolion unigol;
- Un weledigaeth, strategaeth ac ethos ar draws pob cyfnod;
- Arbedion refeniw cysylltiedig â chostau rhedeg uwch ar gyfer ysgolion meithrin annibynnol a fyddai'n rhyddhau cyllid ychwanegol i fformiwla ariannu gyffredinol ysgolion;
- Cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd trwy arbedion maint a chaffael cydlynol.

Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau’n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac roedd gan y

Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach roedd y Cyngor yn eu gwasanaethau y gellid gwireddu'r weledigaeth hon.

Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ag ymgyngoreion rhagnodedig yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi Dogfen Ymgynghori, a fyddai'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r cynigion, gan amlinellu unrhyw oblygiadau posibl. Gallai unrhyw berson ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgynghori, naill ai'n ysgrifenedig neu drwy gwblhau ffurflen ar-lein ar wefan y Cyngor. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddai'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori, a fyddai'n rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd, yn ogystal ag amlinellu ymateb y Cyngor i unrhyw faterion oedd yn cael eu codi. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gohebiaeth wedi dod i law gan unigolion a grwpiau er mwyn mynegi eu barn ac y byddai ymatebion yn cael eu llunio i roi sicrwydd iddynt nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ac y byddai proses ymgynghori lawn yn cael ei chynnal lle gallent gyflwyno eu barn.

Dywedodd y Cynghorydd Gray ei fod hefyd wedi derbyn gohebiaeth am y mater ac nad oedd yr adroddiad heddiw yn ganlyniad ac y byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal. Byddai adroddiad y Cabinet, pe bai'n cael ei gytuno, yn cynnig cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac roedd yn edrych ymlaen at weld yr ymatebion.

Dywedodd y Cynghorydd King ei fod hefyd wedi cael ymholiadau am y mater, gan sicrhau trigolion nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto a dweud mai dechrau proses i ddechrau ymgynghoriad oedd yr adroddiad. Gofynnodd i'r Dirprwy Arweinydd ymateb yn llawn i lythyr technegol a dderbyniwyd am y mater. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai ymateb llawn yn cael ei baratoi, ond y gellid trafod yr holl faterion a godwyd hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol a'u cofnodi yn yr adroddiad terfynol a fyddai'n dod yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y manylion yn yr adroddiad a oedd ar gael ar-lein i'r rhai â diddordeb yn y mater a allai ateb rhai cwestiynau, ond y byddai pobl yn gallu mynegi unrhyw bryderon pellach trwy'r broses ymgynghori ffurfiol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) AWDURDODI'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022 trwy:

- Newid yr ystod oedran isaf o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Evenlode o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;

- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Evenlode i ddarparu ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Terfynu Ysgol Feithrin Bute Cottage a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

(2) AWDURDODI’r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022 trwy:

- Newid yr ystod oedran isaf o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Cogan o 4 i 3, i gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan-amser;
- Cynyddu gallu Ysgol Gynradd Cogan i ddarparu ar gyfer y 96 o leoedd meithrin rhan-amser; a
- Terfynu Ysgol Feithrin Cogan a throsglwyddo holl staff a disgyblion y cyfnod meithrin o dan lywodraethiant Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

(3) CYFEIRIO’r adroddiad at y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant i'w ystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Awdurdodi cynnal ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode o fis Medi 2022.

(2) Awdurdodi cynnal ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i gyfuno Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan o fis Medi 2022.

(3) Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ynghylch y cynigion.

**C663 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2020/2021 (WCRC) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -**

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol am y Trydydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a oedd yn asesu perfformiad y polisïau wrth gyflawni amcanion integredig y Cynllun sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy ac Asesiad Amgylcheddol Strategol gan roi sylw i'r Fframwaith Monitro a nodir yn y CDLl ac y cytunwyd arno gan yr Arolygydd fel rhan o'r Archwiliad CDLl ac a fabwysiadwyd o ganlyniad gan y Cyngor ar 28 Mehefin, 2017.

Roedd fformat yr AMB yn dilyn y fformat a awgrymwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diweddaraf. Roedd yn cynnwys dangosyddion monitro craidd a lleol a defnyddiwyd system sgorio 'goleuadau traffig' fel cymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun ac i roi trosolwg cyflym o berfformiad polisi.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyflawniadau polisi allweddol hyd yma ac yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r targedau monitro perthnasol wedi'u cyrraedd. Tynnodd sylw at y dangosyddion lle'r oedd angen ymchwil/ymchwilio pellach a nododd fod COVID-19 wedi oedi datblygiad rhai Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a pheth hyfforddiant i Aelodau mewn perthynas â Pholisi MD1 fel yr argymhellwyd yn yr AMB blaenorol.

Yn gyffredinol, roedd AMB 2019/2020 yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran gweithredu'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth gyffredinol yn parhau i fod yn gadarn. Yn unol â hynny, argymhellwyd y dylid cyflwyno'r trydydd AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2021 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â Rheoliad CDLl 37. Yn ogystal, nododd fod y Cyngor wedi cychwyn adolygiad o'r CDLl yn unol â Rheoliad CDLl 41 ac roedd yn argymell y dylai'r Cyngor ddechrau gweithio ar CDLl newydd ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo Cytundeb Cyflawni newydd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol am y Trydydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) (yn amodol ar ystyried unrhyw newidiadau a argymhellir gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2021 ac i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

(2) NODI y byddai gwaith yn dechrau ar CDLl Newydd ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo Cytundeb Cyflawni newydd.

(3) CYFEIRIO Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried. Pe bai'r Pwyllgor Craffu yn penderfynu derbyn AMB y CDLl, byddai'r Cabinet yn ystyried AMB y CDLl fel y cytunwyd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2021. Pe bai gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio unrhyw faterion i'w hystyried, byddai'r materion yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cabinet cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2021.

(4) RHOI awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio, i wneud newidiadau teipograffyddol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen cyn eu cyhoeddi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cydymffurfio â Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

(2) Cydymffurfio â Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

(3) Sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.

(4) Gwneud newidiadau teipograffyddol neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

**C664 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020-2021 (OCI) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -**

Cafodd Fersiwn Her o adroddiad y Cyfarwyddwr ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf. Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor adborth cadarnhaol a chroesawodd olwg newydd yr adroddiad.

Cyflwynwyd fersiwn derfynol yn dilyn adborth gan bartneriaid i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o flaenoriaethau yr oedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u pennu. Roedd y rhain wedi'u gosod yng nghyd-destun y pandemig a'r newidiadau sylweddol yn y galw. Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar y blaenoriaethau gwella hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Gray fod yr adroddiad yn tynnu sylw at faint o waith a oedd wedi'i wneud o dan amgylchiadau heriol a nodwyd gan swyddogion Craffu ym mis Gorffennaf. Roedd y Cyngor wedi addasu, cefnogi staff ac wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau gofal cartref a gofal preswyl i gefnogi pobl agored i niwed yn y gymdeithas. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchiad ardderchog o'r hyn a gyflawnwyd trwy weithio mewn partneriaeth.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2020-2021.

(3) CYTUNO ar y blaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol fel y'u nodir yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2020-2021.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi ystryiaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2020-2021 yn cael ei gymeradwyo a'i gytuno gan y Cabinet.

(3) Sicrhau bod y blaenoriaethau fel y'u nodir gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet.